Diweddariad Rheoli Prosiect – Derbynwyr Grant Llwybr 1 – Ionawr 2024

Annwyl Dderbynwyr Grant,

Rydyn ni'n gobeithio eich bod chi wedi cael dechrau da i 2024 a'ch bod chi'n edrych ymlaen at ddarparu gweithgareddau symudedd newydd a chyffrous eleni. Mae tîm Taith wedi bod yn brysur yn paratoi i lansio galwad ariannu Llwybr 1 2024. Bydd y ffenestr ar gyfer ceisiadau yn agor ar yr 31 Ionawr ac yn cau ar yr 20 Mawrth am hanner dydd. Byddwn yn cynnal cyfres o weminarau i rannu gwybodaeth a chefnogi darpar ymgeiswyr – gallwch gofrestru ar gyfer y rhain ar y dudalen digwyddiadau ar ein gwefan.

Nodyn atgoffa am adroddiadau interim

Gwnewch yn siŵr eich bod chi wedi darllen drwy eich 'proses amserlen dalu' a'ch 'rhestr gofynion adrodd', fel eich bod yn gwybod pryd mae disgwyl i chi gyflwyno eich adroddiad interim. Mae hyn yn rhan o'ch dyletswyddau fel y nodir yn eich llythyr Cytundeb Grant. Bydd Taith yn cysylltu â chi trwy e-bost i'ch hysbysu o'r union ddyddiad cau a byddwn ni'n rhoi arweiniad pellach ar gyfer cwblhau eich adroddiad. Os ydych chi wedi derbyn templed eich adroddiad interim yn ddiweddar ac mae angen rhagor o gymorth arnoch chi, cysylltwch â cefnogaeth@taith.cymru am gyngor a gallwn ni drefnu galwad i'ch helpu gyda'ch adroddiad. Mae'n bwysig bod eich adroddiad interim yn cael ei gyflwyno mewn pryd gan y bydd hyn yn effeithio ar ddyddiad eich taliad interim.

Cais am estyniad prosiect

Yn y misoedd blaenorol, mae rhai Derbynwyr Grant wedi gofyn am estyniad i'w prosiectau pan nad ydyn nhw wedi gallu cyflawni'r holl weithgareddau a amlinellir yn yr Atodlenni o fewn yr amserlen y cytunwyd arni. Hyd yma, bu'n bosibl i Taith gytuno i rai o'r ceisiadau hyn ar y ddealltwriaeth y byddai lefel y cyllid dros oes Taith yn parhau (yn gymharol) gyson.

Fodd bynnag, mae Taith yn wynebu gostyngiad cyffredinol sylweddol yn y gyllideb ar gyfer 2024 ymlaen o tua 50%. Mae hyn yn golygu nid yn unig bod gennym lai o arian i'w ddyrannu i alwadau Llwybr yn y dyfodol, ond hefyd y byddai'n rhaid i unrhyw gyllid ar gyfer prosiectau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r dyddiad gorffen y cytunwyd arno ar hyn o bryd ddod o'r dyraniad cyllid llai hwnnw. Ni ellir cario unrhyw arian heb ei wario o un flwyddyn ariannol ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu efallai na fyddwn yn gallu cymeradwyo ceisiadau am estyniad i brosiectau yn y dyfodol os bydd y dyddiad gorffen newydd yn disgyn mewn blwyddyn ariannol wahanol, gan y gallai hyn gael effaith sylweddol ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer galwadau ariannu yn y dyfodol. Os ydych chi'n bryderus ynghylch methu â chadw at ddyddiad gorffen eich prosiect ac eisiau trafod y posibilrwydd o estyniad, cysylltwch â ni cefnogaeth@taith.cymru cyn gynted â phosibl

Ffïoedd cyrsiau

Mae ffïoedd cwrs wedi'u cynnwys fel cost gymwys ar gyfer prosiectau Llwybr 1 er mwyn gallu ymgymryd â symudedd. Os ydy ffïoedd cwrs a amcangyfrifwyd ar y cam ymgeisio wedi eu cymeradwyo ond nad oes eu hangen wedyn yn ystod cyfnod cyflwyno'r prosiect, bydd y gost hon yn cael ei thynnu o'ch cyllideb sydd ar gael. **Ni ellir trosglwyddo'r** gyllideb sydd ar gael ar gyfer ffïoedd cwrs i unrhyw gategori gweithgaredd arall na'i thrin fel rhan o'r gyllideb

gyffredinol sydd ar gael.

Cyllid ar gyfer symudedd mewnol

Mae eich cyllideb ar gyfer symudedd mewnol yn amodol ar eich cyllideb ar gyfer symudedd allanol. Cyfrifwyd eich cyllid ar gyfer symudiadau mewnol ar y ganran y gofynnoch amdani ar y cam ymgeisio (hyd at 30%). Mae hwn wedi'i ddarparu yn ychwanegol at eich cyllideb symudedd allanol. Cofiwch, os bydd eich cyllideb symudedd allanol yn gostwng (oherwydd gostyngiad yn nifer y cyfranogwyr symudedd allanol, gostyngiad mewn hyd neu newid cyrchfan) bydd y cyllid ar gyfer symudedd mewnol yn gostwng yn unol â hynny. Os bydd nifer eich cyfranogwyr allanol neu fewnol yn gostwng, bydd eich cyllideb ar gyfer Cymorth Sefydliadol yn gostwng yn unol â hynny. Bydd y ffigur terfynol a gewch chi ar gyfer symudedd mewnol yn seiliedig ar y symudedd allanol gwirioneddol sydd wedi digwydd hyd at uchafswm y lwfans o 30%. Mae rhai Derbynwyr Grant wedi dewis darparu symudiadau mewnol dim ond ar ôl iddyn nhw gwblhau eu symudedd allanol i sicrhau eu bod yn gwybod yn union faint o gyllid sydd ar gael iddyn nhw.

Tystysgrif Gwariant – diweddariad

Yn ein Bwletin ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddon ni y byddai'r gofynion sy'n ymwneud â Thystysgrifau Gwariant ar gyfer Derbynwyr Grant gyda phrosiectau o £50,000 neu fwy yn newid cyn hir i un Dystysgrif Gwariant yn unig **gyda'r adroddiad terfynol**. Bydd y newidiadau hyn yn dod i rym ar gyfer prosiectau presennol ym mis Mawrth 2024 a bydd gwybodaeth bellach yn cael ei rhannu gyda'r Dderbynwyr Grant. Bydd hyn yn disodli'r gofyniad gwreiddiol i gyflwyno Tystysgrif Gwariant yn flynyddol. Fodd bynnag, os ydych eisoes wedi cyflwyno un Dystysgrif Gwariant yn 2023, bydd angen i chi gyflwyno un arall ar ddiwedd eich prosiect, gyda'r adroddiad terfynol.

Sesiynau cefnogaeth ar gyfer Derbynwyr Grant Llwybr 1

Bob mis mae tîm Taith yn cynnal sesiynau galw heibio ar gyfer Derbynwyr Grant Llwybr 1 o'r sectorau Ysgolion, Ieuenctid, Addysg Oedolion ac Addysg Bellach. Mae'r rhain yn sesiynau anffurfiol lle gallwch chi gwrdd â Derbynwyr Grant Taith eraill a thrafod unrhyw ymholiadau sydd gennych chi gyda'r tîm. Byddwn yn cynnal y sesiwn nesaf ar gyfer derbynwyr Llwybr 1 ddydd Llun 19 Chwefror am 4pm. Mae'r dolenni cofrestru i'r sesiwn ar gael yma.

Grwpiau Rhanddeiliaid Sector

Cynhaliwyd y rownd ddiweddaraf o gyfarfodydd Grŵp Rhanddeiliaid Sector ar gyfer pob sector ddydd Llun 15 Ionawr. Diolch yn fawr i bawb oedd wedi ymuno â ni. I'r rhai ohonoch chi sydd â diddordeb mewn darllen y cofnodion, gallwch chi ddod o hyd iddyn nhw ar ein gwefan. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y materion a drafodwyd yn y cyfarfodydd ac yr hoffech gael sgwrs gyda ni, anfonwch e-bost atom yn cefnogaeth@taith.cymru

Cynhelir cyfarfod nesaf y Grŵp Rhanddeiliaid ddydd Mawrth 16 Ebrill am 12pm, a bydd yn gyfarfod traws-sector sy'n dwyn ynghyd yr Ysgolion, Ieuenctid, Addysg Oedolion, Addysg Bellach, Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol ac Addysg Uwch yn rhithwir. Byddwn yn rhannu mwy o wybodaeth yn nes at y dyddiad.

Rydym yn croesawu eich adborth

Rydym bob amser yn croesawu eich adborth am y prosesau a'r adnoddau mae Taith wedi eu creu i'ch cefnogi i gyflawni eich prosiectau - beth sy'n gweithio'n dda, beth allen ni ei wella, beth allen ni ei ddatblygu. Anfonwch eich syniadau atom ni drwy cefnogaeth@taith.cymru Os yw'n haws, byddwn ni'n hapus i drefnu galwad neu gyfarfod gyda chi.